# Y CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, LL15 1YN a thrwy Gynhadledd Fideo ddydd Mawrth, 12 Tachwedd 2024 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Michelle Blakeley-Walker, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Kelly Clewett, Ann Davies, Karen Edwards, Pauline Edwards, Gwyneth Ellis, James Elson, Chris Evans, Hugh Evans, Justine Evans, Bobby Feeley, Elen Heaton, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Delyth Jones, Diane King, Julie Matthews, James May, Jason McLellan, Barry Mellor, Terry Mendies, Raj Metri, Will Price, Arwel Roberts (Is-Gadeirydd), Anton Sampson, Gareth Sandilands, Peter Scott (Cadeirydd), Rhys Thomas, Cheryl Williams, David Williams, Elfed Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Amgylchedd (TW); Pennaeth Cyllid ac Archwilio (LT); Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (PJ); Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Pobl (CR); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP); Gwesteiwr Zoom a Gweddarlledu (NH) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Jon Harland, Geraint Lloyd-Williams, Merfyn Parry ac Andrea Tomlin

Ar y pwynt hwn, croesawyd dau Gynghorydd newydd i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor Llawn gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Peter Scott. Bu'r Cynghorwyr Will Price ac Anton Sampson yn llwyddiannus yn ddiweddar mewn dau is-etholiad yn y Rhyl a Phrestatyn, yn y drefn honno.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 3 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

Ar y pwynt hwn, rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod dau gwestiwn wedi'u derbyn.

Cwestiwn 1

Cwestiwn a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Terry Mendies i'r Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio, y Cynghorydd Alan James –

"Ym mis Mai eleni, roedd cyfanswm o 561 achos o dorri rheolau cynllunio yn y Sir, a oedd yn fwy na dwbl yr 250 achos 16 mis ynghynt. Pam?

Ar 30 Tachwedd, mewn llai na 3 wythnos, mae'r Pennaeth Gorfodi yn gadael CSDd er mwyn dechrau swydd newydd yn yr Alban.

Mae'r swyddog gorfodi arall wedi trosglwyddo eisoes i un o adrannau eraill CSDd. A yw'r swyddi gwag hyn wedi cael eu hysbysebu, os ddim, pam?

Hefyd, o ystyried bod cynifer o achosion o dorri rheolau cynllunio, a bod Sir y Fflint newydd gyflogi 2 swyddog gorfodi ychwanegol, a yw'n credu y dylem fod yn cyflogi mwy na 2 ohonynt?"

Ymatebodd y Cynghorydd Alan James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio fel a ganlyn:

Y prif reswm am y cynnydd yn nifer yr achosion o dorri rheolau cynllunio dros y ddwy flynedd ddiwethaf oedd bod dau Swyddog Gwelliant wedi'u cyflogi a'u lleoli dros dro, drwy gyllid y gronfa ffyniant gyffredin. Bu'r ddau swyddog yma wrthi'n nodi achosion o dorri rheolau a phroblemau, er mwyn mynd ati i wella'r eiddo hynny. Bu i'r camau gweithredol hyn arwain at gynnydd yn nifer yr achosion o dorri rheolau a gofnodwyd.

Ar hyn o bryd, mae dau swyddog cydymffurfiaeth cynllunio parhaol yn y Tîm Rheoli Datblygu. Roedd deiliad swydd y Prif Swyddog Cydymffurfiaeth Cynllunio wedi cael swydd y tu allan i Gyngor Sir Ddinbych. Hoffem ddiolch iddo am ei holl waith rhagorol, a dymuniadau gorau iddo yn ei swydd newydd. Roedd y sefyllfa hon wedi digwydd rhwng 2-3 wythnos yn ôl ac ers hynny cafwyd cymeradwyaeth gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol i'r panel recriwtio hysbysebu'r swydd hon, ac roedd hyn yn cael ei brosesu. Roedd swydd y Swyddog Cydymffurfiaeth Cynllunio yn wag ar hyn o bryd, gan fod deiliad y swydd wedi cael dyrchafiad i rôl arall yn y Tîm Rheoli Datblygu.

Rwy'n ymwybodol y gofynnwyd i wasanaethau Cyngor Sir Ddinbych ystyried pob dewis o ran gwneud arbedion sylweddol ar gyfer 2025/2026. Roedd peidio â llenwi'r swydd yn un o'r dewisiadau ar gyfer gwneud arbedion. Felly, byddai'r swydd wag hon yn ddewis y byddai angen i'r aelodau ei drafod dros yr wythnosau nesaf. Nid oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud i gael gwared ar y swydd hon eto.

Cadarnhawyd hefyd nad oedd Cyngor Sir y Fflint yn hysbysebu am ddau Swyddog Gorfodi Cynllunio. Mae pob Cyngor yn cyflogi ystod eang o Swyddogion Gorfodi o wasanaethau gwahanol, ac felly, gallai'r ddwy swydd newydd dybiedig hyn fod yn rolau gwahanol i rai Gorfodi Cynllunio.

Yna, gofynnodd y Cynghorydd Terry Mendies y cwestiwn atodol canlynol:
“O ystyried bod yr achosion hyn o dorri rheolau cynllunio wedi mwy na dyblu, bod rhai ohonynt yn dyddio’n ôl 13 mlynedd, a bod y Pennaeth Gwasanaeth yn cymryd £120,000 o arian trethdalwyr bob blwyddyn, a yw’r Aelod Arweiniol yn credu bod y trethdalwr yn cael gwerth am arian?”

Ymatebodd y Cynghorydd Alan James gan gytuno i gysylltu â’r Cynghorydd Mendies yn ei dro, gydag ymateb i’w gwestiwn atodol.

Cwestiwn 2

Cwestiwn a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Brian Jones i Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, y Cynghorydd Barry Mellor –

“A fyddai modd cael eglurhad gan yr Aelod Arweiniol ynghylch y diffyg casgliadau biniau gwastraff yn y Rhyl dros y ddau benwythnos diwethaf – h.y. penwythnosau dydd Sadwrn yr 2il a’r 9fed o Dachwedd 2024. Mae nifer o gwynion wedi’u derbyn. Pam fod hynny wedi digwydd yn y Rhyl dros y ddau benwythnos diwethaf. Rwyf ar ddeall ei fod wedi digwydd ym Mhrestatyn ac ardaloedd eraill.”

Ymatebodd y Cynghorydd Barry Mellor fel a ganlyn:
Mae Tîm Gwasanaethau Stryd CSDd yn parhau i weithio'n galed iawn i glirio'r gwastraff oddi ar y strydoedd, er gwaethaf y sefyllfa ariannol anodd a heriol. Cafodd arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin ei ddefnyddio dros y blynyddoedd diwethaf i gefnogi'r gwasanaeth drwy ddarparu adnoddau ychwanegol yn ystod anterth y tymor twristiaid.

Ym mis Hydref 2024, daeth y trefniant cyllid hwn i ben, gan olygu bod y tîm yn gweithio drwy ac yn dilyn amserlen gwasanaeth ddiwygiedig erbyn hyn, er mwyn sicrhau bod y gwastraff yn cael ei gasglu mewn modd hwylus. Gallai hyn olygu newid diwrnodau clirio o benwythnosau i ddechrau wythnos waith o bryd i’w gilydd.

Roedd y gwasanaeth wrthi'n gweithio i fynd i'r afael â'r mater hwn ac i ddarparu gweithgaredd clirio gwastraff rheolaidd ar benwythnosau yn y dyfodol.

Yna, gofynnodd y Cynghorydd Brian Jones y cwestiwn atodol canlynol:
“A wnaiff yr Aelod Arweiniol roi gwybod i’r cyhoedd yr hyn y mae wedi’i egluro, beth sy’n mynd i ddigwydd i reoli hyn yn y cyfnod sy’n arwain at y Nadolig ac a fyddai modd iddo wneud hynny cyn gynted â phosibl? Nid yw preswylwyr yn deall beth sy’n digwydd. Mae’r Aelod Arweiniol newydd grybwyll bod y Gronfa Ffyniant Gyffredin sy’n cefnogi’r casgliadau bellach wedi dod i ben, felly, a fyddai modd iddo rannu neges yn y cyfryngau, fel bod preswylwyr yn deall beth sy’n digwydd, a’r hyn sy’n debygol o ddigwydd yn y cyfnod sy’n arwain at y Nadolig, fel bod hynny’n eglur i bawb yn Sir Ddinbych.”

Ymatebodd y Cynghorydd Barry Mellor i'r cwestiwn atodol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Brian Jones.
Cadarnhaodd y Cynghorydd Mellor ei fod yn fodlon rhannu neges â’r cyhoedd, er mwyn sicrhau eu bod nhw’n gwybod yn iawn beth sy’n digwydd.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Adroddodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Peter Scott, ar y digwyddiadau dinesig y bu iddo eu mynychu.

***PENDERFYNWYD*** *nodi dyddiadur y Cadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 10 Medi 2024.

<u>Materion yn Codi</u> –

Tudalen 10 – 3ydd pwynt bwled *"roedd nifer y tai Cyngor a adeiladwyd yn ystod y weinyddiaeth hon yn siomedig".* Dywedodd y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, ei fod eisiau iddo gael ei nodi yn y cofnodion fod rhai o'r ffeithiau'n anghywir. Roedd CSDd yn adeiladu tai Cyngor newydd, yn addasu eiddo presennol ac yn prynu eiddo yn ôl i fod yn dai Cyngor unwaith eto. Yn nhabl Cymru, mae CSDd yn darparu mwy o dai fforddiadwy nag unrhyw Awdurdod Lleol arall neu ymhlith y pump uchaf o leiaf. Dywedodd y Cynghorydd Thomas y byddai'n fodlon cyfarfod â'r Cynghorydd a ddywedodd hyn yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, er mwyn edrych ar yr holl ddata.

***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 10 Medi 2024 fel cofnod cywir.*

## 6 STRATEGAETH A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG AR GYFER 2025/26 - 2027/28

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau, y Cynghorydd Gwyneth Ellis y Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26 – 2027/28 (dosbarthwyd ymlaen llaw).

Roedd yr adroddiad yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch goblygiadau pennu cyllideb 2025/26, gan gynnwys yr arbedion a ystyrir.

Roedd pwysau costau yn 2025/26 gydag amrediad canolig o £18 miliwn, a rhagwelir amrediadau tebyg ar gyfer 2026/27 a 2027/28.

Dywedodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Jason McLellan fod yna gyllideb ar gyfer y DU a bod Cymru wedi derbyn setliad gwell na'r disgwyl. Bu i'r Arweinydd, y Pennaeth Cyllid a'r Aelod Arweiniol Cyllid fynychu cyfarfod y diwrnod blaenorol gyda Llywodraeth Cymru ac roedd y gyllideb i'w chyhoeddi ar 10 Rhagfyr 2024. Hyd nes y cyhoeddir y gyllideb ar 10 Rhagfyr, ni fyddai dim o ffigyrau'r setliad yn cael eu rhyddhau.

Ar y pwynt hwn, gofynnodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts a fyddai modd pleidleisio ar yr argymhellion yn yr adroddiad yn unigol yn hytrach na fel pleidlais floc. Roedd o'r farn y dylid cael pleidlais ar wahân ar gyfer argymhelliad terfynol

adroddiad 3.4 ynghylch gosod cyllideb gytbwys a chodi Treth y Cyngor yn uwch nag yr oedd yn 2024/25.

Cadarnhawyd, er mwyn cydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2025/26, y byddai'n rhaid lleihau rhai gwasanaethau a gwario mwy ar rai gwasanaethau, ac mai'r unig ffordd o gydbwyso'r gyllideb fyddai codi Treth y Cyngor. Yn yr adroddiad, roedd arwyddion ond nid ffigyrau pendant o ran y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor.

Roedd blaenoriaethu'r effaith ar wasanaethau yn elfen bwysig o'r broses, ond roedd yn rhaid cydnabod y gallai'r effaith fod yn un negyddol hefyd. Felly, byddai asesiad effaith gronnol yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol.

Ar y pwynt hwn, cododd y Cynghorydd Terry Mendies y mater ynghylch Swyddogion Gorfodi Cynllunio. Dywedodd y dylent fod yn ffordd o gynyddu refeniw, er mwyn cynorthwyo â'r sefyllfa ariannol oedd yn wynebu'r Cyngor.

Yn dilyn trafodaethau, dywedwyd mai penderfyniad Cadeirydd y Cyngor fyddai p'un ai y byddai pleidlais ar wahân yn cael ei chynnal ar gyfer yr argymhellion neu bleidlais floc. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai pleidlais floc yn cael ei chynnal. CYNIGIODD y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr argymhellion yn yr adroddiad, ac fe'u HEILIWYD gan y Cynghorydd Jason McLellan.

Cafwyd pleidlais a chytunodd y rhan fwyaf o'r aelodau i dderbyn yr argymhellion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn –*

*(i) Cymeradwyo'r Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26 – 2027/28 fel y nodir yn Atodiad 1 a'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon presennol y maent yn seiliedig arnynt;*

*(ii) Adolygu, ystyried a rhoi gwybod i'r Cabinet am unrhyw sylwadau am y cynigion ar gyfer arbedion fel y'u nodir yn Atodiad 2;*

*(iii) Cymeradwyo'r Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26 – 2027/28 yn Atodiad 3 a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i osod cyllideb gytbwys yn 2025/26;*

*(iv) Cydnabod, pe na bai sefyllfa'r cyllid gan Lywodraeth Cymru'n gwella, er mwyn pennu cyllideb gytbwys byddai'n ofynnol (i) lleihau rhai gwasanaethau (ii) darparu mwy o gyllid i wasanaethau eraill oherwydd costau uwch a gofynion swyddogaethau statudol sy'n diogelu'r preswylwyr mwyaf diamddiffyn yn bennaf a (iii) chodi Treth y Cyngor.*

## 7 RHYBUDD O GYNNIG

Dyma'r rhybudd o gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Martyn Hogg ar ran y Blaid Werdd –

"Rydym yn cadarnhau bod Cyngor Sir Ddinbych yn cefnogi'r ymgyrch i ddatganoli rheolaeth Ystâd y Goron a'i hasedau yng Nghymru i Lywodraeth Cymru a bod yr arian sydd wedi cael ei godi yn cael ei ddefnyddio gan Awdurdodau Lleol i gefnogi anghenion cymdeithasol y bobl sy'n byw yng Nghymru.

Gofynnwn i'r Arweinydd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn amlinellu ein cefnogaeth i berswadio San Steffan i ddatganoli Ystâd y Goron fel mater o frys".

Yn dilyn trafodaeth fer, cytunodd yr Arweinydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru.

Cafwyd pleidlais a phleidleisiodd y rhan fwyaf o'r aelodau o blaid y Rhybudd o Gynnig.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Rhybudd o Gynnig a bod yr Arweinydd, y Cynghorydd Jason McLellan yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru.*

## 8 RHYBUDD O GYNNIG

Dyma rybudd o gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Delyth Jones ar ran Grŵp Plaid Cymru –

"O ystyried yr argyfwng cyllidebol sy'n wynebu Cyngor Sir Ddinbych, yn ogystal â holl gynghorau eraill Cymru ar hyn o bryd, dyma argyfwng sy'n sicr o gael effaith ar allu'r awdurdod i gyflenwi'r ystod lawn o Wasanaethau fel y byddem yn dymuno i'n preswylwyr. Hefyd, mae'n argyfwng a fydd bron yn sicr yn cael dylanwad ar waith y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned o fewn y Sir.
Oherwydd hyn, mae Grŵp Plaid Cymru o'r farn y dylai Cyngor Sir Ddinbych gymryd y camau rhagweithiol canlynol er mwyn cryfhau ein perthynas â'r cyrff allweddol a phwysig hyn a chefnogi eu gwaith.

1) Creu swyddogaeth benodol o fewn y tîm Democrataidd i Gefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned trwy fod yn bwynt cyswllt uniongyrchol ar eu cyfer.
2) Llunio rhestr o wasanaethau taladwy y gall yr awdurdod eu cynnig i'r Cynghorau.
3) Datblygu cynlluniau ar y cyd â'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned, a allai gynhyrchu incwm iddynt".

Cadarnhawyd bod gweithio gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn flaenoriaeth.

Roedd yna brosiect yn rhan o'r Rhaglen Drawsnewid ar hyn o bryd a oedd yn edrych ar sut yr oedd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, gan gynnwys y posibilrwydd o gael swyddog cyswllt. Roedd yn ofynnol bod y prosiect yn dilyn y prosesau priodol ar gyfer sefydlu'r Achos Busnes, i'w ystyried gan Fwrdd y Gyllideb a Thrawsnewid. Byddai creu swydd yn berthnasol i Gangen Weithredol yr Awdurdod, nid penderfyniad i'r Cyngor mohono.

Cynigiodd y Cynghorydd Julie Matthews fod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei gyflwyno i Fwrdd y Gyllideb a Thrawsnewid i'w ystyried ymhellach. Cadarnhawyd y byddai budd-ddeiliaid a Chynghorwyr Sir yn rhan o'r broses ymgynghori.

Dywedodd y Swyddog Monitro, er eglurder, fod gan y Cyngor Raglen Drawsnewid ac mai pwrpas y Rhaglen oedd arbed arian ac ailbennu'r modd yr oedd y Cyngor yn mynd ati i sicrhau ei fod yn gweithio yn y modd mwyaf effeithlon posibl. Byddai'n manteisio ar weithio gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid mewn amrywiol agweddau gwahanol o'i fusnes. Roedd yna brosiect ar gyfer ystyried sut y cyflawnir hyn o ran

Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Un awgrym posibl yw y byddai angen gweithio mewn ffordd wahanol, er mwyn gwella effeithlonrwydd, ond gwneud mwy o arbedion. Roedd rhaid profi'r achos busnes ac nid oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto. Y lle priodol i drafod hyn yn fanwl oedd Bwrdd y Gyllideb a Thrawsnewid, drwy Weithdai Cyllideb, a phe bai'n cael ei wneud yn gynnig, byddai'n cael ei ailgyflwyno gerbron yr aelodau. Nid oedd hwn yn benderfyniad i'w wneud yn un o gyfarfodydd y Cyngor, heb adroddiad neu achos busnes, a byddai'n berthnasol i'r gangen weithredol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Cafwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol, a,
***PHENDERFYNWYD** trafod y Rhybudd o Gynnig yng nghyfarfod Bwrdd y Gyllideb a Thrawsnewid, yn ogystal â'r Achos Busnes, a'i ailgyflwyno i'r Cyngor Llawn yn y dyfodol.*

**9 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR SIR**

Rhoddodd y Swyddog Monitro gyflwyniad a chrynodeb o sefyllfa ddiweddaraf Rhaglen Waith y Cyngor a Rhaglen Waith Gweithdai'r Cyngor.

Bydd tair eitem ychwanegol i'w hychwanegu at Raglen Waith y Cyngor ar gyfer mis Ionawr 2025 –

(i) Adolygiad Blynyddol o Fannau Pleidleisio
(ii) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
(iii) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar yr uchod, i nodi Rhaglen Waith y Cyngor a Rhaglen Waith Gweithdai'r Cyngor.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 pm.**